


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Y cynlluniau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

Ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc

# Helô

**Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gael y cyfleoedd gorau i wneud yn dda mewn bywyd.**

**Nid ydyn ni eisiau i unrhyw rai gael eu dal yn ôl mewn bywyd oherwydd eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd dysgu.**

Mae rhai plant a phobl ifanc yn ei chael hi'n fwy anodd dysgu nag eraill, ac efallai bod angen help ychwanegol arnyn nhw i:

- wneud gwaith ysgol
- deall gwybodaeth
- rannu eu barn gydag eraill.

**Anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anawsterau ac anableddau dysgu (AAD)** yw ein henwau ar y rhain.

Yng Nghymru, mae yna lawer o waith da i gefnogi plant a phobl ifanc â'r anghenion yma, ond rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y cymorth iawn ar gael yn rhwydd i unrhyw un sydd ei angen.

## Beth rydyn ni eisiau ei wneud

Mae'r llyfryn yma'n esbonio'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud i'r gyfraith fel y gallwn ni gael system well sy'n helpu gwasanaethau i gydweithio.

**Rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi, felly a fyddech cystal ag ateb y cwestiynau wrth iddyn nhw godi.**



## Eich hawliau

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn manylu ar wahanol hawliau plant a phobl ifanc, gan gynnwys eich hawl i addysg a hawl i ddweud eich dweud ynglŷn â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eich bywyd chi.

# Cyflwyniad

## Pam y mae angen newidiadau arnon ni?

Rhoddwyd y systemau rydyn ni'n eu defnyddio heddiw ar waith 30 mlynedd yn ôl ac nid ydyn nhw, erbyn hyn, yn gwneud popeth rydyn ni eisiau iddyn nhw ei wneud.

### Ein gweledigaeth

**Rydyn ni eisiau system newydd yng Nghymru i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd dysgu.**

Bydd y system newydd yma:

- yn rhoi plant, pobl ifanc a'u buddiannau yn gyntaf
- yn gwrando ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw
- yn gwneud yn siŵr bod y cymorth iawn ar gael i blant a phobl ifanc
- yn gwneud y broses o gytuno ar gynlluniau'n haws iddyn nhw
- yn helpu i ddatrys problemau neu anghydfodau'n gyflym
- yn gwneud yn siŵr bod pawb yn cydweithio.

## Ein tri nod

Rydyn ni eisiau:

- un gyfraith ynglŷn â sut i gefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed y mae angen help arnyn nhw â dysgu
- un system o gydweithio fel bod pob gwasanaeth yn gallu camu i mewn yn gynnar â'r cymorth iawn i blant a phobl ifanc y mae angen help arnyn nhw i ddysgu
- cyngor, cymorth a gwybodaeth eglur sy'n deg i bawb os bydd pethau'n mynd o chwith neu os nad yw pawb yn hoffi penderfyniad.

**I'n helpu ni i gyrraedd y nodau yma mae gennym ni 10 prif beth rydyn ni eisiau ei wneud.**

# 10 nod

## 1. Rydyn ni eisiau cyflwyno term newydd, sef ‘anghenion dysgu ychwanegol’ (ADY).

Bydd ADY yn disodli AAA (anghenion addysgol arbennig) ac AAD (anawsterau neu anableddau dysgu). Bydd y gyfraith newydd yn esbonio union ystyr ADY.

Bydd y system ADY newydd:

- ✔ yn canolbwyntio ar anghenion addysgu a dysgu, nid ar anghenion eraill fel anghenion iechyd
- ✔ yn ffordd newydd o helpu plant a phobl ifanc sy’n ei chael hi’n fwy anodd dysgu nag eraill
- ✔ yn cefnogi dysgwyr ar draws blynyddoedd cynnar, ysgol ac addysg bellach.

Ai canolbwyntio ar anghenion dysgu, yn hytrach nag ar anghenion eraill fel iechyd, ydy’r ffordd iawn o fynd ati?

Ie ☐ Nage ☐ Pam?

## 2. Rydyn ni eisiau cefnogi pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed.

Bydd y system ADY newydd:

- ✔ yn dod â’r holl systemau a chyfreithiau gwahanol at ei gilydd mewn un system newydd
- ✔ yn cefnogi pobl ifanc sydd mewn hyfforddiant neu addysg bellach ôl-16
- ✔ yn helpu pob dysgwr wrth iddyn nhw symud rhwng ysgolion, symud i addysg ôl-16 neu ddechrau gweithio.

Ydych chi’n meddwl y bydd hyn yn helpu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol rhwng 0 a 25 oed?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Pam?

## 3. Rydyn eisiau cael un cynllun datblygu unigol (CDU) yn lle datganiad o AAA neu fathau eraill o gynlluniau.

Bydd y system ADY newydd:

- ✔ yn rhoi cynllun datblygu unigol (CDU) i bob plentyn a pherson ifanc ag ADY
- ✔ yn cynnig help i bob plentyn a pherson ifanc ag ADY ar y lefel sydd ei hangen
- ✔ yn cefnogi pob angen dysgu ychwanegol.

A fydd cael cynlluniau datblygu unigol yn well na chael gwahanol gynlluniau ar gyfer gwahanol anghenion?

Bydd ☐ Na fydd ☐ Pam?

## 4. Rydyn ni eisiau cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel eu bod nhw'n chwarae rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw.

Bydd y system ADY newydd:

- ✔ yn helpu plant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr i chwarae rhan mewn cynllunio'r help a'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw
- ✔ yn rhoi gwybodaeth a chyngor eglur
- ✔ yn cynnig eiriolaeth lle bo'i hangen.

**Eiriolaeth** – rhywun yn ochri â chi i'ch helpu i ddweud eich dweud.

A fydd hyn yn helpu plant a phobl ifanc i ddweud eu dweud ynglŷn â'r cymorth y maen nhw'n ei gael?

Bydd ☐ Na fydd ☐ Pam?

## 5. Rydyn ni eisiau i bob plentyn a pherson ifanc fod â gobeithion ar gyfer eu dyfodol a chael nodau yn eu CDU.

Bydd y system ADY newydd:

- ✔ yn helpu plant a phobl ifanc i wybod pa gymorth y maen nhw i fod i'w gael
- ✔ yn gwneud yn siŵr bod gan ysgolion Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynydd ADY) a fydd yn helpu plant a phobl ifanc ag ADY
- ✔ yn helpu plant a phobl ifanc i weld y pethau y maen nhw wedi'u cyflawni, a'u dathlu
- ✔ yn gwneud cynlluniau datblygu unigol yn hyblyg ac yn bosibl i'w newid fel bod modd gosod nodau newydd.

## 6. Rydyn ni eisiau i unrhyw waith cynllunio a newid cynlluniau datblygu unigol fod yn glir ac yn syml fel bod pawb yn gallu cymryd rhan.

Bydd y system ADY newydd:

- ✔ yn ei gwneud hi'n haws cynllunio nag y mae'r system AAA sydd gennym ni nawr yn ei ganiatáu
- ✔ yn helpu i ddatrys problemau a materion yn gyflym
- ✔ yn rhoi ffordd i bobl ddweud eu dweud.



A fydd y newidiadau hyn yn cefnogi anghenion plant a phobl ifanc ag ADY yn well?

Byddant ☐ Na fyddant ☐ Pam?

# 7. Rydyn ni eisiau i bob gwasanaeth sy’n cefnogi plant, pobl ifanc a’u teuluoedd gydweithio.

Bydd y system ADY newydd:

- ✔ yn helpu addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gydweithio fel rhan o’r CDU
- ✔ yn cynnwys unrhyw gymorth oddi wrth Fyrddau Iechyd Lleol (BILI) neu Ymddiriedolaethau GIG mewn cynlluniau datblygu unigol
- ✔ yn gwneud yn siŵr bod yna rywun ym mhob BILI a fydd yn helpu ag ADY
- ✔ yn cefnogi plant sy’n derbyn gofal i gael CDU sy’n gweithio gyda’u cynlluniau gwasanaethau cymdeithasol
- ✔ yn helpu i rannu gwybodaeth.

**Plant sy’n derbyn gofal** – mae rhai plant yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol mewn teuluoedd maeth neu gyda gofalwyr eraill, fel eu bod nhw’n cael eu cadw’n ddiogel.




A fydd hyn yn helpu pawb i gydweithio i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY?

Bydd ☐ Na fydd ☐ Pam?

## 8. Rydyn ni eisiau i anghydfodau a chwynion gael eu trin yn gyflym fel nad oes yn rhaid i bobl fynd i dribiwnlys.

**Tribiwnlys** – fel llys, lle mae rhywun yn gwrando ac yn penderfynu ynglŷn ag anghydfodau.

Bydd y system ADY newydd:

- ✔ yn helpu i atal anghydfodau a phroblemau rhag digwydd
- ✔ yn cefnogi awdurdodau lleol a rhieni/gofalwyr i ddod i ddatrys problemau gyda'i gilydd
- ✔ yn cynnig gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc
- ✔ yn cynnig rhywun ar wahân i awdurdodau lleol i edrych ar faterion a rhoi cyngor.

## 9. Rydyn ni eisiau i'r holl blant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr gael yr hawl i apelio os oes angen hynny.

**Apelio** – gofyn i rywun ailedrych ar benderfyniad.

Bydd y system ADY newydd:

- ✔ yn rhoi'r hawl i bawb dan sylw apelio neu fynd i dribiwnlys, gan gynnwys dysgwyr hyd at 25 oed.

?

A fydd hyn yn helpu pan mae yna broblemau neu anghydfodau ynglŷn â chymorth?

Bydd ☐ Na fydd ☐ Pam?

## 10. Rydyn ni eisiau cod ymarfer newydd i fanylu ar y rheolau a'r canllawiau i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY.

Bydd y system ADY newydd:

- ✔ yn rhoi gwybod i bawb sut i weithio'n unol â'r gyfraith newydd.

Oes yna unrhyw beth rydych chi'n meddwl ein bod ni wedi'i adael allan o'n nodau?

# Y camau nesaf

Anfonwch eich atebion erbyn 18 Rhagfyr 2015 i:

Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu: SENReforms@cymru.gsi.gov.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG26534